# Porth Mynediad Deintyddol

Mae'r Porth Mynediad Deintyddol yn blatfform newydd lle gall cleifion sy'n aros am leoliad mewn practis Deintyddol y GIG gofrestru eu diddordeb.

I fod yn gymwys i wneud cais drwy'r Porth Mynediad Deintyddol, rhaid i ddinasyddion:

- Bod yn 16 oed neu'n hŷn
- Heb dderbyn triniaeth ddeintyddol arferol y GIG yng Nghymru yn ystod y tair blynedd diwethaf
- Byw mewn cyfeiriad yng Nghymru am fwy na chwe mis o'r flwyddyn neu fynychu meddygfa yng Nghymru.

Mae'r Porth Mynediad Deintyddol ar gael drwy'r ddolen ganlynol https://dhcw.nhs.wales/product-directory/our-digital-services/dental-access-portal/ neu drwy sganio'r cod QR isod.

Efallai y bydd yn rhaid i chi aros am apwyntiad, ond byddwch yn dawel eich meddwl y bydd rhywun yn cysylltu â chi pan fydd gan bractis deintyddol y capasiti i drefnu apwyntiad arferol.

Yn y cyfamser, os ydych chi'n profi unrhyw boen deintyddol, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Deintyddol ar 0300 123 5060.

Am ragor o wybodaeth, ewch i Deintyddion - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg